**TGAU**

3010NA0-1

W24-3010NA0-1

**DYDD GWENER, 12 IONAWR 2024 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN UWCH

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Mae edrych yn ôl ar ein hanes yn gefndir i'r ddwy gerdd.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Etifeddiaeth**

Cawsom wlad i'w chadw,
darn o dir yn dyst
ein bod wedi mynnu byw.

Cawsom genedl o genhedlaeth
i genhedlaeth ac anadlu
ein hanes ni ein hunain.

A chawsom iaith, er na cheisiem hi,
oherwydd ei hias oedd yn y pridd eisoes
a'i grym anniddig ar y mynyddoedd.

Troesom ein tir yn simneiau tân
a phlannu coed a pheilonau cadarn
lle nad oedd llyn.
Troesom ein cenedl i genhedlu
estroniaid heb ystyr i'w hanes,
gwymon o ddynion heb ddal
tro'r trai.
A throesom iaith yr oesau
yn iaith ein cywilydd ni.

Ystyriwch; a oes dihareb
a ddwed y gwirionedd hwn:
Gwerth cynnydd yw gwarth cenedl
a'i hedd yw ei hangau hi.

*Gerallt Lloyd Owen*

**'11.12.82'**

*(Bob blwyddyn mae cyfarfod yn cael ei gynnal ar Ragfyr 11 i goffáu marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri. Yn 1982, nodwyd saith canrif ers ei farwolaeth ac roedd y bardd yn y cyfarfod hwnnw.)*

Daeth saith canrif ynghyd
yn oerfel Cilmeri,
a'r dail yn diferu atgofion:

saith canrif o sôn
am orchestion hen oesau,
a'r dydd yn gymylau gwelwon:

saith canrif o sefyll
ar erchwyn y dibyn,
a'n traed bron *fferru'n eu hunfan:

saith canrif o gyfri'r
colledion yn dawel
ac edrych i'r gorwel yn ddistaw:

aeth saith canrif yn ddistaw
ger carreg Cilmeri,
a'r awel ar rewi llif *Irfon...

... yna bloeddiodd y baban
a thoddi'r gaeafddydd,
a chwalu'r distawrwydd,
a her canrif newydd yn nychryn ei waedd.

*Iwan Llwyd*

**fferru – rhewi*
**Irfon – afon ger Cilmeri*

**DIWEDD Y PAPUR**